

# Codi Tâl am Weithgareddau

Ysgol Pant Pastynog

| Cymeradwywyd y Polisi gan | Dyddiad cymeradwyo | Perchennog y Polisi | Adolygu |
|---|---|---|---|
| CSDd JMT | 11/12/2024 | Addysg CSDd | Fel pob dogfen ar y rhyngrwyd, mae'r ddogfen hon yn destun adolygiad rheolaidd oherwydd newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi. |

| Rhif y Fersiwn | Dyddiad cymeradwyo | Cymeradwywyd gan | Newid |
|---|---|---|---|
| F1.0 | 11/12/2024 | CSDd JMT | Adolygwyd y polisi yn unol â deddfwriaeth a chymeradwywyd Templed Addysg newydd ar gyfer ysgolion CSDd. |
| | | | |

Cyhoeddwyd Gorffennaf 2019

# CYFLWYNIAD

Pwrpas y polisi hwn yw nodi pa weithgareddau y gellir codi tâl ac na ellir codi tâl amdanynt yn **Ysgol Pant Pastynog.** Mae'r polisi wedi'i lunio yn unol ag Adrannau 449-462 o Ddeddf Addysg 1996 sy'n nodi'r gyfraith o ran pa weithgareddau y gellir codi tâl ac na ellir codi tâl amdanynt mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol.

## Amgylchiadau lle na chodir tâl

Ni chodir tâl am:

**Addysg yn yr ysgol**

- Addysg a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn ystod oriau ysgol.
- Mynediad i'r ysgol i blant oedran ysgol gorfodol.
- Gweithgareddau sy'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, neu'n rhan o faes llafur arholiadau rhagnodedig, neu'n rhan o Addysg Grefyddol.
- Cyflenwi unrhyw ddeunyddiau, llyfrau ac offer neu gyfarpar arall.

**Cludiant**

- Cludo disgyblion cofrestredig i safle'r ysgol ac yn ôl, lle mae gan yr awdurdod lleol rwymedigaeth statudol i ddarparu cludiant.
- Cludo disgyblion cofrestredig i safleoedd eraill lle mae'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol wedi trefnu bod disgyblion yn cael eu haddysgu yno.
- Cludiant sy'n galluogi disgybl i gyflawni gofynion arholiad pan fo'r disgybl wedi'i baratoi ar gyfer yr arholiad hwnnw yn yr ysgol.
- Cludiant a ddarperir mewn cysylltiad ag ymweliad addysgol sy'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

**Ymweliadau Preswyl**

- Addysg a ddarperir ar unrhyw ymweliad a gynhelir yn ystod oriau ysgol.
- Addysg a ddarperir ar unrhyw ymweliad a gynhelir y tu allan i oriau ysgol os yw'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, neu'n rhan o faes llafur ar gyfer arholiad

cyhoeddus rhagnodedig y mae'r disgybl yn cael ei baratoi ar ei gyfer yn yr ysgol, neu'n rhan o addysg grefyddol.
- Athrawon i gyflenwi yn lle'r athrawon hynny sy'n absennol o'r ysgol tra maent yn mynd gyda disgyblion ar ymweliad preswyl.

**Hyfforddiant Cerddorol**

- Plant sy'n dysgu chwarae offerynnau cerddorol fel rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol; neu ran o faes llafur ar gyfer arholiad cyhoeddus rhagnodedig y mae'r disgybl yn cael ei baratoi ar ei gyfer gan yr ysgol, neu'n rhan o addysg grefyddol; neu
- Cost sy'n gysylltiedig â pharatoi disgybl ar gyfer arholiad.

**Ffioedd arholiad**

- Mynediad ar gyfer arholiad cyhoeddus rhagnodedig os yw'r disgybl wedi cael ei baratoi ar ei gyfer yn yr ysgol neu ar gyfer ailsefyll arholiad os yw'r disgybl yn cael ei baratoi ar gyfer ailsefyll yn yr ysgol.

## Amgylchiadau lle gallai'r ysgol godi tâl ar rieni

**Ychwanegiadau Dewisol**

Mae'n bosibl y codir tâl am weithgareddau eraill a elwir yn 'ychwanegiadau dewisol'. Os oes ychwanegiad dewisol yn cael ei ddarparu, mae'n bosibl y caiff tâl ei godi am ddarparu deunyddiau, llyfrau, offerynnau, neu offer fel a ganlyn:

**Addysg**

- Gweithgareddau a gynhelir yn bennaf neu'n gyfan gwbl y tu allan i amser ysgol os nad ydynt yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, nad ydynt yn rhan o faes llafur ar gyfer arholiad cyhoeddus rhagnodedig y mae'r disgyblion yn cael eu paratoi ar ei gyfer yn yr ysgol ac nad ydynt yn rhan o addysg grefyddol.

- Deunyddiau a ddefnyddir mewn pynciau ymarferol ac aseiniadau prosiect cyn belled a bod y rhieni wedi cytuno o flaen llaw eu bod nhw neu'r disgyblion yn dymuno cadw'r cynnyrch gorffenedig e.e. cynhwysion neu ddeunyddiau.

**Hyfforddiant Cerddorol**

- Hyfforddiant offerynnol cerddorol a ddarperir i ddisgyblion unigol neu grwpiau o ddim mwy na phedwar disgybl, os nad yw'r hyfforddiant cerddorol yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu faes llafur arholiad cyhoeddus a ddilynir gan y disgybl.

**Cludiant**

- Cludiant nad yw'n ofynnol i fynd â'r disgybl i'r ysgol neu i safleoedd eraill lle mae'r corff llywodraethu wedi trefnu bod y disgybl yn cael addysg.

**Ffioedd Arholiad**

- Mae'r arholiad ar y rhestr osodedig, ond ni chafodd y disgybl ei baratoi ar ei gyfer yn yr ysgol.
- Nid yw'r arholiad ar y rhestr osodedig, ond mae'r ysgol yn gwneud trefniadau i'r disgybl ei sefyll.
- Mae'r disgybl yn methu, heb reswm da, â chwblhau gofynion unrhyw arholiad cyhoeddus lle mae'r corff llywodraethu neu'r ALl wedi talu neu gytuno i dalu'r ffi fynediad yn wreiddiol.

**Bwyd a Llety**

- Costau bwyd a llety ar gyfer teithiau preswyl, hyd yn oed pan fyddant yn cael eu cynnal yn bennaf yn ystod amser ysgol. (Mae disgyblion sydd â rhieni sy'n derbyn budd-daliadau penodol yn cael eu heithrio rhag talu costau bwyd a llety, gweler tudalen 4).

## Cyfraniadau Gwirfoddol

Er na all ysgolion godi tâl am weithgareddau yn ystod amser ysgol, efallai y ceisir cyfraniadau gwirfoddol gan rieni ar gyfer gweithgareddau sy'n ategu'r cwricwlwm ysgol arferol.
Bydd ceisiadau i rieni am gyfraniadau gwirfoddol yn datgan:

- nad oes unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i wneud cyfraniad gwirfoddol.
- ni fydd disgyblion yn cael eu heithrio os nad yw eu rhieni yn gallu neu'n barod i dalu.
- ni fydd disgyblion sydd â rhieni sy'n methu â chyfrannu yn cael eu trin yn wahanol o gwbl; a
- pan nad oes digon o gyfraniadau gwirfoddol i wneud y gweithgaredd yn bosibl a phan nad oes ffordd o gyflawni'r diffyg, caiff y gweithgaredd ei ganslo.

Ni ddylai ceisiadau am gyfraniadau gwirfoddol mewn perthynas â disgyblion unigol gynnwys unrhyw elfen o gymhorthdal ar gyfer unrhyw ddisgyblion eraill sy'n dymuno cymryd rhan yn y gweithgaredd sydd â rhieni sy'n amharod neu'n methu â thalu'r tâl llawn.

## Dileadau

Bydd rhieni plant yn **Ysgol Pant Pastynog** sy'n gallu profi eu bod yn derbyn y budd-daliadau canlynol yn cael eu heithrio rhag talu costau bwyd a llety ar daith breswyl:

a. Cymhorthdal Incwm
b. Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
c. Yn derbyn unrhyw fudd-dal neu lwfans arall neu â hawl i unrhyw gredyd treth o dan y Ddeddf Credydau Treth 2002 neu elfen o gredyd treth tebyg, fel y rhagnodir gan reoliadau o dro i dro ar gyfer unrhyw gyfnod sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol gynwysedig yn y cyfnod a dreulir ar y daith. Ar hyn o bryd rhagnodir y canlynol:

- cymorth o dan Ran 6 Deddf Mewnfudo a Lloches 1999;
- Credyd Treth Plant, cyn belled â nad ydynt yn derbyn Credyd Treth Gwaith ac nad yw incwm y teulu (fel y'i hasesir gan Refeniw a Thollau Ei Fawrhydi) yn uwch na £16,190 (h.y. plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim);
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ar sail Incwm.
- Elfen Warantedig Credyd Pensiwn y Wladwriaeth.

- Derbyn Credyd Cynhwysol.

Efallai y bydd y corff llywodraethu'n dymuno dileu'r gost yn llawn neu'n rhannol am weithgareddau eraill i rieni mewn amgylchiadau penodol.

## Gwybodaeth Atodol

**Gwisg Ysgol, Dillad Ymarfer Corff, Cyfrifianellau, Beiros ac ati. Ffedogau**
Mae'n bosibl y gwahoddir rhieni i ddarparu offer personol i'w plentyn os bwriedir i'r eitem gael ei ddefnyddio gan eu plentyn nhw yn unig.

**Torri a Difrodi**
Os bydd ymddygiad disgybl yn arwain at ddifrodi eiddo neu offer yr ysgol, mae'n bosibl y gofynnir i rieni dalu am waith trwsio angenrheidiol neu am brynu o'r newydd. Bydd pob digwyddiad yn cael ei drin ar ei rinweddau ei hun ac yn ôl disgresiwn yr ysgol.

| | |
|---|---|
| **Crëwyd ar** | Medi 2024 |
| **Diweddarwyd ddiwethaf ar** | Medi 2025 |
| **Mabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethu Llawn ar** | Tachwedd 2025 |
| **Dyddiad adolygu a drefnwyd** | Tachwedd 2026 |
| **Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr a dyddiad** | |